



COVID-19 A'R SECTOR
ADDYSG BELLACH (AB)
YNG NGHYMURU

Ebrill 2020

RHAGAIR

Mae lledaeniad Covid-19 (neu Coronafeirws) wedi tarfu'n ddifrifol ar gymunedau a theuluoedd ledled Cymru. Nod y briff hwn yw helpu ein rhanddeiliaid i ddeall y sefyllfa y mae Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yng Nghymru yn ei chymryd mewn ymateb i'r pandemig hyd yma, a pha gamau y mae Fforwm Penaethiaid Colegau Cymru wedi'u cymryd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, yn y budd gorau dysgwyr ôl-16 ledled y wlad.

Cefndir

Ar Chwefror 28ain 2020, cadarnhawyd achos cyntaf Covid-19 yng Nghymru. Ers hynny, mae cyfanswm yr achosion a marwolaethau wedi cynyddu'n gyflym. Ar Ebrill 15fed, cyfanswm y marwolaethau yng Nghymru o ganlyniad i'r firws oedd 463, tra bod nifer yr achosion a gadarnhawyd yn 6,118, er y dywedir bod y gwir nifer yn uwch¹. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, de-ddwyrain Cymru yw'r ardal sydd wedi'i heffeithio waethaf yn y wlad, gyda 1,570 o achosion ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, a 1,471 o achosion ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (gyda Cwm Taf ac Abertawe Bro Morgannwg yn dilyn yn agos ar ôl)². Mae'r ardaloedd daearyddol a gwmpesir gan y Byrddau Iechyd hyn yn cynnwys saith coleg a dros 30 o gampysau sy'n gartref i ddysgwyr academaidd a galwedigaethol 14+ oed.

Yr heriau sy'n wynebu'r sector addysg

Ar Fawrth 18fed, yn ystod Fforwm Penaethiaid Colegau Cymru, cyfarfu Penaethiaid a Phrif Weithredwyr o bob coleg ledled Cymru i drafod ymateb cydgyssylltiedig ar draws y sector AB i Covid-19. Gwnaed y penderfyniad i atal yr holl ddarpariaeth wyneb i wyneb erbyn Mawrth 20fed a chymryd dull graddol o weithio'n wahanol, gyda'r pwyslais ar ddarpariaeth ar-lein. Yn bwysig, gwnaed y penderfyniad i

gadw campysau coleg ar agor gyda staff sgerbwd lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad o hyd i lyfrgelloedd a chefnogaeth. Nid yw plattfform dysgu ar-lein Llywodraeth Cymru ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr AB neu brentisiaid. O ganlyniad, mae SABau wedi buddsoddi mewn ystod o Lwyfannau Dysgu Rhithwir i gyrraedd eu myfyrwyr. Mae staff cymorth colegau hefyd wedi defnyddio llwyfannau ar-lein fel Teams neu Zoom ar gyfer cyfarfodydd staff, gan sicrhau bod gweinyddiaeth y colegau yn parhau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yn dilyn cyfarfod y Fforwm Penaethiaid ar Fawrth 18fed, ysgrifennodd Colegau Cymru at y Gweinidog Addysg ar ran y sector, a derbyniodd ymateb cyflym ar Fawrth 20fed. Canmolodd y Gweinidog y cydweithredu rhagweithiol parhaus rhwng colegau, a diolchodd i Golegau Cymru am gydlyn trafodaethau â swyddogion. Mewn ymateb i bryderon penodol a godwyd gan Colegau Cymru, cadarnhaodd y bydd taliadau LCA, a gefnogodd 15,090 o ddysgwyr AB y llynedd³, yn dal i gael eu gwneud er bod addysg wyneb i wyneb wedi'i atal, a gall taliadau Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddysgwyr a chyflenwyr barhau i gael ei wneud. Mae colegau yn anelu at fod mor gefnogol â phosibl i'w dysgwyr bregus, yn ogystal â'r cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol iddynt, ar yr adeg heriol hon.

¹ <https://coronaviruscymru.wales/>

² <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

³ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Student-Support/Educational-Maintenance-Allowances-Further-Education/approvedemaapplications-by-gender-learningcentretype-awardtype>



Mae'r tabl isod yn dangos y data mwyaf diweddar ar gyfer nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn colegau AB ac yn rhoi syniad o'r niferoedd sy'n tarfu o ganlyniad i Covid-19. Bydd pob dysgwr unigol yn wynebu ei heriau ei hun wrth barhau i ddysgu ar yr adeg hon. Mae colegau wedi cymryd

camau penodol i gefnogi'r dysgwyr mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o astudiaethau. Mae her ymddieithrio wedi bod yn brif bryder i bob SAB.

NIFER O DDYSGWYR WEDI COFRESTRU MEWN COLEGAU AB YNG NGHYMURU 2018/19⁴

Ffig.1

Coleg	Dysgwyr
Coleg Penybont	6,775
Coleg Sir Gâr	8,020
Coleg Gwent	10,835
Grŵp Llandrillo Menai	16,160
Y Coleg Merthyr Tudful	2,170
Coleg Sir Benfro	5,095
Coleg Catholig Dewi Sant	1,380
Coleg Gwyr Abertawe	10,595
Coleg Caerdydd a'r Fro	11,450
Coleg Cambria	16,135
Coleg y Cymoedd	9,450
Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales	12,510
Grŵp Colegau NPTC	10,985
Cyfanswm	121,560

Ffynhonnell: StatsCymru

⁴<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/providerlearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-level>

ARHOLIADAU AC ASESIAU

TGAU, Safon UG a Safon Uwch (U2)

Ar Fawrth 18fed 2020, ar ôl ymgynghori â Cymwysterau Cymru a CBAC, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai arholiadau TGAU a Safon Uwch 2020 yr haf (sy'n effeithio'n bennaf ar ddysgwyr ym mlynnyddoedd 11 a 13) yn cael eu canslo. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru hefyd na fyddent yn cynhyrchu mesurau cyflawniad na pherfformiad gwerth ychwanegol ar gyfer 2019/20. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, gwnaeth Cymwysterau Cymru ddatganiad yn dweud eu bod yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill ledled y DU "i sicrhau bod dysgwyr oedd i fod i sefyll eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yn cael gradd deg i gyd nabod eu gwaith."⁵ Yn ystod yr amser hwn mae Colegau Cymru wedi bod yn awyddus i sicrhau ymgysylltiad ystyrion â'r rheolydd a hefyd gyda'r cyrff dyfarnu. O ystyried maint y dysgu sy'n digwydd mewn SABau, gweler Tabl 1, mae'r ymgysylltiad hwn yn gwella'n araf a bydd yn allweddol ar gyfer asesiad academaidd yn ogystal ag asesiad galwedigaethol.

Ar Fawrth 27ain 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg sut y bydd dysgwyr blwyddyn 10 a blwyddyn 12 gyfredol yng Nghymru yn cael eu hasesu, yn dilyn cychwyn Covid-19 a chanslo arholiadau haf 2020⁶. Bydd dysgwyr ym mlwyddyn 10 yn derbyn gradd yn seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys asesiadau athrawon yn ystod y flwyddyn academaidd hyd yma. Mae Colegau Cymru yn gefnogol i'r math hwn o asesiad gan mai hwn yw'r ffordd fwyaf realistig ac ymarferol ymlaen i ddysgwyr a darlithwyr coleg. Dyfernir cymwysterau Safon UG mewn ffordd debyg. Fodd bynnag, yn haf 2021, rhoddir dau opsiwn i ddysgwyr UG cyfredol ar gyfer eu dyfarniad Safon Uwch:

- sefyll yr unedau U2 yn unig, gyda'r radd Safon Uwch yn cael ei dyfarnu ar eu perfformiad yn yr unedau U2 yn unig;
- neu sefyll yr unedau UG ac U2. Byddant yn derbyn y radd orau o'r naill lwybr neu'r llall.

Gan ddefnyddio'r data mwyaf diweddar gan Lywodraeth Cymru, yn 2018/19, roedd 121,560 o ddysgwyr unigryw wedi cofrestru mewn SABau yng Nghymru⁷. O'r dysgwyr hyn, roedd 23,385 o weithgareddau dysgu UG a Safon Uwch (gweithgaredd yw un mynediad arholiad)⁸. Er nad hwn yw'r ffigur mwyaf diweddar (nid yw data 2019/20 wedi'i cyhoeddi eto) mae'n rhoi arwydd clir o nifer yr arholiadau a fydd yn cael eu canslo eleni.

Cymwysterau Galwedigaethol


Er bod y sefyllfa o ran TGAU a Safon Uwch yn gliriach, mae trafodaethau ar y gweill ynghylch sut i ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol. Mae Colegau Cymru yn pwysu am lefel o gydraddoldeb a chysondeb. Mae datganiad ar asesu cymwysterau galwedigaethol bellach wedi'i ryddhau gan Ofqual a Cymwysterau Cymru, a bydd y sector yn ystyried ac yn ymateb i'r gofynion amrywiol a roddir ar golegau.

⁵ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/penderfyniad-i-ganslo-arholiadau-haf-2020/>

⁶ https://llyw.cymru/gweinidog-addysg-yn-cyhoeddi-trefniadau-arholi-ar-gyfer-blynnyddoedd-10-12?_ga=2.108209345.25655348.1587032538-544668597.1574855019

⁷ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/providerlearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-level>

⁸ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/learningactivitiesfurthereducationinstitutions-by-qualificationtype-age-gender>



DEDDFWRIAETH

Roedd dau Fil addysg fawr- y Mesur Cwricwlwm ac Asesu, a Bil ar sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru (y cyfeirir ato weithiau fel "Bil PCET")- ar fin cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd y Rhaglen Llywodraeth gyfredol. Roedd rheolaeth a chraffu ar y ddau Fil mewn cyfnod cymharol fyr eisoes yn heriol cyn dechrau Covid-19.

Ar Ebrill 1af 2020, gwnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford ddatganiad ar agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddeddfwriaeth yng ngoleuni Covid-19. Cadarnhaodd fod

y Bil ar Gwricwlwm ac Asesu yn “flaenoriaeth allweddol i’r Llywodraeth”, a bod gweddill y rhaglen ddeddfwriaethol “yn parhau i gael ei hadolygu’n barhaus”⁹. Mae Colegau Cymru ac aelodau’r Fforwm Penaethiaid yn parhau i fod yn gefnogol i egwyddorion ac amcanion y ddau fil pwysig hyn, fodd bynnag, y blaenoriaeth i arweinwyr AB yw mynd i’r afael â heriau’r pandemig.

⁹ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dull-y-lywodraeth-o-ymdrin-deddfwriaeth-yn-dilyn-yr-achosion-o-covid-19?ga=2.16404341.25655348.1587032538-544668597.1574855019>

BETH NESAF?

Yn fwyaf brys, mae ColegauCymru yn aros am gadarnhad gan Gymwysterau Cymru ynghylch asesu cymwysterau galwedigaethol. Byddwn yn diweddarau rhanddeiliaid trwy'r cyfryngau cymdeithasol unwaith y bydd ymateb wedi dod i law.

Mae'n dal yn aneglur pa mor hir na fydd ysgolion a cholegau'n gallu darparu addysgu wyneb i wyneb oherwydd covid-19. Mae'r sefyllfa'n newid o ddydd i ddydd, felly mae'n amhosibl rhagweld beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Os bydd gohirio gweithgareddau wyneb i wyneb, gan gynnwys addysgu, yn parhau y tu hwnt i fis Medi 2020, bydd yn creu her i gofrestrïadau coleg. Byddai hon yn sefyllfa ddigynsail i golegau.

Bydd ColegauCymru yn parhau i fonitro diweddariadau gan Lywodraeth Cymru er bod sesiynau llawn Cynulliad Cymru bellach i fod i gael eu cynnal ar ddydd Mercher yn unig trwy fideo-gynadledda.

Ar Chwefror 12fed 2020, cyhoeddodd Kirsty Williams fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £2 filiwn yn ychwanegol i ddatblygu cefnogaeth iechyd meddwl a lles mewn colegau ledled Cymru. Meddai,

“Mae sicrhau bod gan fyfyrwyr o bob oed fynediad at gymorth iechyd meddwl yn un o'm blaenoriaethau ac rwy'n falch ein bod yn darparu cyllid ychwanegol i golegau i ddatblygu eu gwasanaethau cymorth rheng flaen.”

Mae'r sector bellach yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r arian sydd ar gael i gefnogi dysgwyr, gan ystyried effaith y sefyllfa covid-19. Sicrhau canlyniadau dysgu cadarnhaol a lles dysgwyr yw cyd-flaenoriaethau'r sector. Mae cynllunio ar gyfer dyfodol ansicr hefyd wedi cychwyn a bydd y sector yn parhau i ymgysylltu â'i holl randdeiliaid allweddol wrth i hyn esblygu.

Casgliad

Mae colegau a'u dysgwyr wedi dangos chydnerthedd yn ystod amseroedd anodd dros ben, gan symud o ddysgu wyneb i wyneb i addysg digidol ar-lein ac ymdrin ag aflonyddwch i'r asesiadau y byddent wedi'u disgwyl. Mae cadw dysgwyr i ymgysylltu â'u hastudiaethau yn hanfodol, felly mae colegau yng Nghymru yn ymroddedig i ddarparu'r dysgu digidol a dysgu o bell gorau posibl. Yn ystod yr amser hwn a thrwy gydol cyfnod yr argyfwng iechyd cyhoeddus, bydd colegau yn cydweithredu i ddatblygu a rhannu arfer gorau i sicrhau'r profiadau dysgu mwyaf cadarnhaol posibl i'w dysgwyr.

Gan fod y sefyllfa'n newid o ddydd i ddydd, rydym wedi ceisio cadw'r briff hwn mor gyfoes â phosibl. Mae unrhyw ddiweddariadau pellach ar gael ar ein gwefan¹⁰ neu dudalen Twitter¹¹.

Dolenni defnyddiol

https://llyw.cymru/addysg-bellach-ac-addysg-uwch-coronafeirws?_ga=2.16404341.25655348.1587032538-544668597.1574855019

https://llyw.cymru/addysg-uwch-chymorth-i-myfyrwyr-coronafeirws?_ga=2.183689445.25655348.1587032538-544668597.1574855019#

<https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/>

¹⁰ www.colegau.cymru www.colleges.wales

¹¹ <https://twitter.com/colegaucymru>



Ffôn
02920 522 500

Colegau Cymru
U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

E-bost
hello@colegaucymru.ac.uk

Gwefan
www.colegau.cymru